

## PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD MAWRTH, 10 GORFFENNAF 2018

Yn  
bressenol: Cynghorydd Bridgeman (Cadeirydd),  
Y Cynghorwyr De'Ath, Philippa Hill-John, Joyce, Murphy, Taylor a/ac  
Singh

: Aelodau Cyfetholedig: Patricia Arlotte (Cynrychiolydd Gatholig  
Rufeinig), Carol Cobert (Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru) a/ac  
Karen Dell'Armi (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr)

### 13 : YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Linda Morgan a Mike Phillips ac hefyd Rebecca Crump.

### 14 : DATGAN BUDDIANNAU

Enw	Eitem	Natur y Buddiant
Y Cynghorydd Bridgeman	3	Buddiant rhagfarnus gan ei fod wedi'i gyflogi gan Gweithredu Dros Blant
Y Cynghorydd Bridgeman	4	Buddiant personol gan ei fod yn Gynghorydd Ward dros Lanrhyddni
Y Cynghorydd Joyce	4	Buddiant personol gan ei fod yn Gynghorydd Ward dros Lanrhyddni

### 15 : DARPARIAETH GWASANAETHAU SEIBIANT BYR CAERDYDD YN NHŶ STORRIE

Dywedodd y Cynghorydd Bridgeman fod ganddo fuddiant rhagfarnus yn yr eitem hon o gofio ei fod wedi'i gyflogi gan Gweithredu Dros Blant, ac y byddai'n rhaid iddo adael y cyfarfod.

Enwebodd y Cynghorydd De'Ath y Cynghorydd Joyce i Gadeirio'r eitem hon. Eiliwyd hyn ac fe'i cytunwyd gan y Pwyllgor. Aeth y Cynghorydd Cowan i'r Gadair.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey (Aelod Cabinet, Plant a Theuluoedd), Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau), Angela Bourge (Rheolwr Gweithredol, Strategaeth, Perfformiad ac Adnoddau) i'r cyfarfod.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Hinchey gan y Cadeirydd i wneud datganiad, lle dywedodd mai Gweithredu Dros Blant yw'r darparwr gwasanaethau ar hyn o bryd yn Tŷ Storrie. Yn flaenorol bu rhai pryderon am rai agweddau o'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig yn Nhŷ Storrie. Aed i'r afael â'r rhain, ond mae rhai problemau'n parhau a bydd cais i'r Cabinet i gymeradwyo bod tîm mewnol y Cyngor yn darparu gwasanaethau o hyn ymlaen.

Rhoddodd Angela Bourge gyflwyniad i'r Aelodau yn amlinellu'r cefndir, a'r buddion o ddod â'r gwasanaeth yn fewnol, gan gynnwys:

- Aliniad gyda Crosslands / rhan o ddarpariaeth gwasanaethau wedi'u rheoleiddiol gyda'r un R1
- Mwy o reolaeth dros ansawdd y gwasanaeth
- System gofnodi rheoli-achosion unigol ar gyfer Tŷ Storrie
- Gwelliant disgwylidig mewn recriwtio a chadw staff
- Mynediad at galendr hyfforddi gofal cymdeithasol eang y Cyngor i gefnogi datblygiad staff
- Symleiddio'r dull o greu rheolwyr
- Rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Cyngor i adolygu'r model o ofal yn y dyfodol er mwyn gwneud y mwyaf o ddefnydd ohono a bodloni anghenion sy'n newid.

O ran Staffio a Chyllido, clywodd yr Aelodau y bydd staff Gweithredu Dros Blant yn trosglwyddo i'r Cyngor o dan reoliadau TUPE. Mae swydd y Rheolwr ar hyn o bryd yn wag; mae'r cynnig yn niwtral o ran cost. Bu ymgynghori hefyd gyda'r undebau llafur.

Cafodd Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, gofyn am eglurhad pellach neu wneud sylwadau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Nododd yr aelodau bod rheolwr Crosslands ynghlwm â'r mater a bydd yn chwarae rhan allweddol wrth gofrestru'r cartref gyda'r cyngor. Mae cyngor hefyd yn cael ei roi, ynghyd â chanllawiau ar faterion yn ymwneud â staff.

Y bwriad yw penodi Rheolwr Cofrestredig newydd yn Nhŷ Storrie, ond bydd rheolwr Crosslands yn gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Cofrestredig newydd.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynglŷn â sut yr ydym mewn gwell lle o ran staffio. Clywsant bod y darparwyr wedi gweithio'n galed i fynd i'r afael â phryderon, ond er gwaethaf hynny eu bod yn parhau, yn enwedig y ffaith bod swydd y Rheolwr Cofrestredig wedi bod yn wag am beth amser. Mae'r problemau staffio parhaus wedi effeithio ar sefydlogrwydd, yn wahanol i Crosslands, lle mae grŵp o staff profiadol, sydd wedi dangos eu gallu i recriwtio a chadw staff da.
- Tynnodd yr Aelodau sylw at y cyfraniad o £100,00 gan BIP, gan ofyn a fydd y cyllid hwnnw'n parhau. Dywedodd swyddogion bod yr ariannu gan BIP yn dal yn broblem, a bydd hynny'n wir pwy bynnag sy'n rhedeg y cartre.
- Gofynnodd Aelodau pam fod llai o ddefnydd wedi cael ei wneud o Dŷ Storrie. O'r 8 gwely, y ddealltwriaeth oedd y byddai 4 yn cael eu defnyddio i gynig Seibiant Cyfnod Byr yng Nghaerdydd, ac y byddai nyrsus BIP yn defnyddio 4 gwely am rai nosweithiau bob wythnos fel rhan o gynllun i integreiddio gwasanaethau. Fodd bynnag, mae anghenion Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi newid o ran angen a chymhlethdod cynyddol, ac ni ellir bodloni'r rhain.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad a oedd y ffi oedd yn cael ei dderbyn yn dibynnu ar faint o bobl ifanc oedd yn aros yn Nhŷ Storrie. Dywedodd Swyddogion bod yna fformiwla gymhleth, ond bod y Cyngor i bob pwrpas yn prynu nosweithiau gwely/arosiadau dros nos. Mewn blynyddoedd blaenorol talwyd y ffi, ond wnaethon nhw ddim cyflawni. Nid dyna oedd yr achos yn 2017-18 fodd bynnag. Nid oedd yn werth am arian, yn hytrach na bod yn fater o fethu cyflawni'r contract.
- Nododd Aelodau, er bod risg cychwynnol o wrthdaro rhwng staff a drosglwyddwyd o dan TUPE, a staff gafodd eu recriwtio ar raddfeydd cyflog y Cyngor, roedd swyddogion yn fodlon y gellid rheoli hyn. Mae hyn bob amser yn broblem pan mae staff yn trosglwyddo o dan TUPE. Ar y cyfan mae staff Tŷ Storrie yn credu bod trosglwyddo o fantais; maent wedi ymrwymo i'r cartref.
- Nododd aelodau bod ymgynghori wedi bod gyda'r plant a phobl ifanc a rhieni i sicrhau eu bod yn ymwybodol y bydd yr un lefel o ofal yn cael ei gynnig ac y bydd llawer o'r un staff yn dal yno. Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu a'r neges glir oedd bod rhieni'n gweld seibiant dros nos fel y gobaith olaf un. Maen nhw am gefnogaeth i wneud pethau gyda'i gilydd fel teulu.
- Gofynnodd Aelodau am y ganran o blant sy'n gymwys i ddefnyddio'r gwasanaethau a chlywsant na fyddai rhestr aros fel y cyfryw. Tŷ Storrie bydd y man cyswllt cyntaf, ond bydd rhaid ystyried a fydd anghenion y plentyn yn cael eu bodloni, o gofio'r rhai sydd eisoes yn derbyn y gwasanaeth.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y Ffordd Ymlaen.

## 16 : DARPARIAETH LLEFYDD YSGOLION CYNRADD CYFRWNG SAESNEG YN ARDAL LLANRHYMNI

Dychwelodd y Cynghorydd Bridgeman yn ôl i'r Gadair.

Cafwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorwyr Bridgeman a Joyce am eu bod yn gynghorwyr dros ward Llanrhymini.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau) a Nick Batchelar (Cyfarwyddwr, Addysg a Dysgu Gydol Oes) i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cyfarwyddwr ei fod yn cydnabod bod cyflwyno cynllun i gau ysgol ddim yn hawdd, yn enwedig mewn cymuned lle mae'r ysgol uwchradd hefyd wedi cau. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn darpariaeth o ansawdd a'r amgylchedd dysgu gorau.

Gofynnodd y Cadeirydd nifer o gwestiynau ar ran aelodau o'r cyhoedd. Ymatebodd swyddogion fel a ganlyn:

- Mae lles plant yn holl-bwysig; ar ddiwedd y cyfnod ymgynghorol mae'n bosib y daw i'r amlwg bod ysgolion eraill gwell ag amodau gwell i'w cael;
- Mae lleoedd ar gael mewn ysgolion eraill yn yr ardal a bydd y tîm yn gweithio'n agos gyda rhieni i'w cadarnhau;
- Gwneir pob ymdrech i gynnwys brodyr a chwiorydd yn yr un ysgol - yr ysgolion agosaf yw Bryn Hafod, Pen y Bryn a Sant Cadog. Ni fyddai'n ofynnol i fynychu Ysgol Gatholig.
- Yn ôl tystiolaeth ddaeth i law drwy'r broses dderbyn, o'r 478 o blant oed cynradd oedd yn byw yn y dalgylch yn Ionawr 2017, roedd 133 yn mynychu'r ysgol.
- Mae'r ysgol yn un o'r ardaloedd difreintiedig hynny lle mae angen ymateb os oes niferoedd llai mewn ysgol. Mae plant yn haeddu cael yr addysg orau bosib. Mae diffyg yn y gyllideb a bach iawn o arian ar gyfer atgyweiriadau. Y nod yw amharu cyn lleied â phosib. Cytunwyd ar gynllun i ad-dalu'r ddyled, ond gyda nifer y disgyblion fel y mae, mae'n anodd iddyn nhw gadw ar ben y ddyled - mae peryg iddo gynyddu.
- Bu peth buddsoddiad yn yr ysgol yn ddiweddar - cafodd y to ei drwsio. Ond mae angen buddsoddiad sylweddol.
- Byddai'r gost o adleoli darpariaeth Dechrau'n Deg yn dibynnu'n fawr ar y lleoliad. Y bwriad fyddai i'r ddarpariaeth honno aros yn lleol. Gan nad oes penderfyniad wedi'i wneud, ni ellir darparu manylion unrhyw gostau.

Cafodd Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, gofyn am eglurhad pellach neu wneud sylwadau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Nododd aelodau bod nifer o leoedd gwag wedi bod yn yr ysgol ers peth amser. Bydd yr ymgynghoriad yn ceisio canfod barn y rhieni am yr ysgol ond ar hyn o bryd mae'n ymddangos eu bod yn credu bod ysgolion eraill yn cynnig darpariaeth well.
- Nododd Aelodau nad oes llawer o bellter rhwng yr ysgolion, ac mae'n amlwg bod rhieni eisoes yn teithio i ysgolion eraill yn yr ardal beth bynnag.
- Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth yr Aelodau bod gan Ysgol Sant Cadog 1.5 dosbarth mynediad ar hyn o bryd, ond deallir bod lle yn yr ysgol i gynnwys 2 ddosbarth mynediad a bod hynny'n cael ei ystyried.
- Gofynnodd Aelodau am fwy o eglurder ynglŷn â pha mor gywir yw'r amcanestyniad am leoedd yn y dyfodol a'r lefel o fuddsoddiad

cyfalaf sydd ei angen. Clywodd yr Aelodau bod amcanestyniadau ar gyfer ysgolion yn anodd bob amser; rhoddwyd ystyriaeth i'r datblygiadau tai amrywiol. Dylid ymgynghori ar hyn. Dywedodd Aelodau'r Cabinet bod lle yn Sant Cadog i 2 ddsbarth mynediad. Nid oes angen rhaglen adeiladu enfawr. Mae angen cadarnhau safleoedd, codi niferoedd disgyblion ac felly gynyddu cyllidebau.

- Nododd Aelodau, pe bai 99% o ddisgyblion Glan yr Afon am fynd i'r un ysgol byddai'r un trefniadau derbyn yn berthnasol, ac yn yr achos annhebyg hwnnw mae'n bosib y byddai'n rhaid ystyried newid y dalgylch, a byddai hynny'n destun ymgynghoriad.
- Mynegodd Aelodau bryder bod cyfanswm y disgyblion o ddatblygiadau tai newydd Braunton Crescent a Clevedon Road yn isel, ac er nad oes modd dibynnu'n llwyr ar amcanestyniadau disgyblion, mae'n bwysig bod y wybodaeth mor gadarn â phosib.
- I egluro ymhellach, dywedodd Patricia Arlotte wrth y Pwyllgor na fyddai disgyblion yn cael eu gorfodi i fynychu Sant Cadog sy'n Ysgol Gatholig, ond pe bai nhw'n mynd yno byddai disgwyl eu bod yn dymuno bod yn y fath amgylchedd. Mae'n rhaid i aelodau staff arwyddo Cytundeb Gwasanaeth Addysg Catholig, felly byddai'n rhaid i'r rhai sy'n mynychu'r ysgol wneud hynny hefyd.
- Clywodd yr Aelodau y byddai cost yn deillio o beidio defnyddio'r ysgol ond cadw'r adeilad. Byddai angen tipyn o fuddsoddiad cyfalaf, a gellid defnyddio'r safle'n well ar gyfer y gymuned.
- Gofynnodd Aelodau am eglurder o ran symud y ddarpariaeth ADY; fe'u cynghorwyd bod ymrwymiad pendant i adleoli er nad oes cynllun eglur yn ei le eto.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y Ffordd Ymlaen.

#### 17 : ADRODDIAD RHAGLEN WAITH

Cytunodd y Pwyllgor i greu Panel i ystyried Rhaglen Waith y Pwyllgor yn ystod y mis nesaf.

#### 18 : Y FFORDD YMLAEN

Trafododd aelodau'r wybodaeth a dderbyniwyd gan nodi nifer o faterion y cytunodd y Cadeirydd fyddai'n cael eu cynnwys yn y llythyrau fyddai'n cael eu hanfon, ar ran y Pwyllgor, i'r Aelodau Cabinet a'r Swyddogion perthnasol.

#### 19 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar ddydd Mawrth 11 Medi 2018 am 4.30 pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.20 pm